Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 29 Medi 2017**

**Yn bresennol:**
Yr Ysgrifennydd Parhaol (Cadeirydd)
Gawain Evans
Natalie Pearson
Elan Closs Stephens
Adrian Webb
Peter Kennedy
Owen Evans
James Price
Andrew Goodall
David Richards
Jeff Godfrey
James Turner
Gillian Baranski
Joanna Jordan
Sarah Rhodes

**Yn cefnogi:**
Jo Salway / Toby Mason (Eitem 1)
Tom Brown (Eitem 2)
Des Clifford / Piers Bisson (Eitem 4)
Sioned Evans / Peter Ryland (Eitem 5)
Helen Cargill (Archwilio Mewnol – sylwedydd)

**Ymddiheuriadau:**
Ann Keane

**Ysgrifenyddiaeth:**
Jamie Jenkins

**Perfformiad Llywodraeth Cymru**

1. **Monitro Cynnydd ar Gyflawni: Ffyniant i Bawb – y Strategaeth Genedlaethol [Bwrdd(17)049]**

1.1 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Jo Salway (Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa'r Cabinet), Toby Mason (Pennaeth Cyfathrebu Strategol) a'u timau am eu gwaith ar y Strategaeth hyd at ei chyhoeddi a'i lansio, a chan gynnwys ar yr adegau allweddol hyn. Diolchodd y Bwrdd hefyd i Natalie Pearson (Dirprwy Gyfarwyddwr, Datblygu ac Ymgysylltu Sefydliadol) a'i thîm am eu rôl yn lansio, datblygu a chyflwyno'r cyfathrebiadau ynglŷn â'r Strategaeth yn ogystal â chynllunio a chynnal digwyddiadau i swyddogion yr Uwch Wasanaeth Sifil a Bandiau Gweithredol.

1.2 Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol a Natalie drosolwg i'r Bwrdd o'r negeseuon allweddol o araith y Prif Weinidog yn y digwyddiad diweddar i swyddogion Bandiau Gweithredol lle eglurodd sut y mae'r Strategaeth yn darparu gweledigaeth ac agenda glir ar gyfer y sefydliad.

1.3 Gwahoddwyd Jo a Toby i roi crynodeb i'r Bwrdd o brif bwyntiau eu papur. Canolbwyntiwyd yn nhrafodaethau'r Bwrdd ar ddisgwyliadau'r Prif

Weinidog a'r rôl dyngedfennol bwysig a fydd gan Gyfarwyddwyr a staff ar Fandiau Gweithredol wrth symud ymlaen i gyflwyno'r Strategaeth.

1.4 Trafododd y bwrdd hefyd faterion y Strategaeth mewn perthynas â chyfathrebu ac ymgysylltu ymhellach â staff a rhanddeiliaid, newidiadau i ddiwylliant a heriau a llywodraethiant y dyfodol, yn ogystal ag anghenion monitro a chofnodi.

**2. Gwireddu Manteision Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol [Bwrdd(17)050]**

2.1 Rhoddodd David Richards (Cyfarwyddwr Llywodraethu) drosolwg o'i rôl newydd fel Eiriolwr y Bwrdd dros Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

2.2 Clywodd y Bwrdd fod rhai aelodau eisoes wedi cael trafodaethau cadarnhaol â rhanddeiliaid ar y cyfleoedd a gynigiwyd gan y Ddeddf a'r strategaeth Ffyniant i Bawb. Cytunodd y Bwrdd ar bwysigrwydd sicrhau bod cyfathrebu ac ymgysylltu cadarn yn parhau rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid.

**3. Adroddiad cyllid [Bwrdd(17)051]**

3.1 Rhoddodd Gawain Evans (Cyfarwyddwr Cyllid) ddiweddariad i'r Bwrdd ar sefyllfa ddiweddaraf y gyllideb a'r amcanestyniadau alldro a chrynodeb o'r prif bwyntiau oedd yn codi o'i bapur.

3.2 Trafododd y Bwrdd faterion mewn perthynas â cohort y cynllun prentisiaethau presennol.

**Corfforaethol**

**4 Trefniadau Pontio'r Undeb Ewropeaidd (UE)**

4.1 Rhoddodd Des Clifford (Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog) a Piers Bisson, (Dirprwy Gyfarwyddwr - Trefniadau Pontio Ewropeaidd), ddiweddariad ar lafar ar y cynnydd mewn perthynas â Threfniadau Pontio'r UE gan gynnwys sefyllfa bresennol y Bil Ymadael.

**5 Rheoli Risg y Cronfeydd Strwythurol [Bwrdd (17)052]**

5.1 Gwahoddwyd Sioned Evans (Prif Weithredwr WEFO) a Peter Ryland (Dirprwy Gyfarwyddwr WEFO, Perfformiad Rhaglenni a Chyllid) i roi trosolwg i'r Bwrdd o'r prif bwyntiau yn codi o'r papur. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar y sefyllfa bresennol ac yn y dyfodol o ran dyrannu cyllid a risgiau mewnol ac allanol sy'n cael eu rheoli gan WEFO.

5.2 Gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Sioned a Peter ddarparu diweddariadau ar gyllid a risg bob dau fis yn y dyfodol.

**6 Parhad Busnes Corfforaethol [Bwrdd (17)053]**

6.1 Cyflwynodd Peter Kennedy ei bapur gan dynnu sylw'r Bwrdd at y trefniadau cynllunio parhad presennol a'r dyfodol ar gyfer Llywodraeth Cymru.

6.2 Cymeradwyodd Joanna Jordan (Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol y GIG) y cynllun i symleiddio dogfennau corfforaethol ac adrannol ymhellach a dywedodd y byddai'r Pwyllgor Gweithrediadau yn croesawu'r cyfle i drafod cynigion ymhellach wrth iddynt gael eu datblygu.

**Eitemau Rheolaidd**

**7 Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol ac Adroddiadau Eithrio**

7.1 Rhoddodd Natalie ddiweddariad ar y trafodaethau sydd wedi'u cynnal ynglŷn â Gallu a Risg Strategol. Rhoddwyd diweddariad hefyd ar ddigwyddiadau 'TEDX'.

7.2 Rhoddodd Peter Kennedy wybod i'r Bwrdd am y Cynnig Tâl diweddaraf – gan gadarnhau bod yr Undebau Llafur yn ei ystyried ar hyn o bryd.

7.3 Trafododd y Bwrdd yr Adroddiad Er Budd y Cyhoedd (recriwtio) a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiweddar.

7.4 Cafodd y Bwrdd wybod am y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r strategaethau a ganlyn: Addysg yng Nghymru, Tai a'r Iaith Gymraeg

**8 Newyddion diweddaraf yr Is-bwyllgorau**

8.1 Rhoddodd David ddiweddariad ar yr adolygiad llywodraethu a gynhelir gan Archwilio Mewnol. Byddai papur cynigion yn seiliedig ar ganfyddiadau gwaith archwilio mewnol yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

8.2 Dywedodd Joanna Jordan wrth y Bwrdd am drafodaethau diweddar y Pwyllgor Gweithrediadau gan gynnwys ynglŷn â'r Strategaeth Leoli a Gweithio'n Hyblyg.

8.3 Cadarnhaodd Joanna fod y Pwyllgor yn ystyried opsiynau sut y gallent gefnogi gwaith y Bwrdd ymhellach a bwydo i waith strategaeth mwy ar (er enghraifft) cyllidebau a chynllunio'r gweithlu. Byddai papur opsiynau yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod y Bwrdd yn y dyfodol

**9 Unrhyw Fater Arall**

9.1 Tynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol sylw aelodau'r Bwrdd at y papurau i'w nodi.

**Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, 29 Medi 2017**